# DADANSODDI FFEILIAU ACHOS - CANLLAWIAU AR GYFER YR AWDURDOD LLEOL

## Rhagarweiniad

Prif ddiben darllen ffeiliau yw casglu gwybodaeth a fydd yn cynorthwyo'r tîm cydadolygu i ddod i ddyfarniad dilys mewn perthynas â'r agwedd allweddol *pa mor dda y caiff pobl eu gwasanaethu?* Golyga hyn ffurfio casgliadau ynghylch perfformiad ym mhob un o'r meysydd sy'n gysylltiedig â'r agwedd honno:

- mynediad at wasanaethau
- asesu
- rheoli ac adolygu gofal
- yr ystod o wasanaethau a ddarperir
- ansawdd y gwasanaethau a ddarperir
- trefniadau i amddiffyn pobl agored i niwed
- llwyddiant mewn hybu annibyniaeth a chynhwysiant cymdeithasol.

Byddwn yn dadansoddi oddeutu 50 o'r achosion mwyaf cymhleth mewn perthynas â'r holl feysydd hyn. Yn ddibynnol ar faint yr awdurdod, creffir ar 3-5 achos arall ar gyfer pob grŵp defnyddwyr gwasanaethau mewn perthynas â meysydd penodol megis mynediad, asesu, ystod o wasanaethau ac ati. Dylai'r ymarfer hwn (o'i ddilyn gan drafodaethau gyda detholiad o staff a defnyddwyr gwasanaethau yn yr adran astudiaethau achos o'r broses) ddarparu atebion i nifer o gwestiynau allweddol ynghylch:

- dulliau cyffredinol yr awdurdod o reoli achosion
- y ffordd y cyflawnir hynny ar gyfer grwpiau penodol o ddefnyddwyr a gofalwyr.

Cynhwysir rhai o'r cwestiynau allweddol hyn yn Atodiad 1.

Yn sgil y pwerau i fynnu gwybodaeth a freiniwyd yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru gan Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (Pennod 6, adran 100), mae gan adolygwyr yr awdurdod i archwilio unrhyw ffeil neu gofnod sy'n gysylltiedig ag adolygiadau ac ymchwiliadau. Does dim angen sicrhau caniatâd defnyddwyr neu ofalwyr.

**Dethol ffeiliau achos**

Dylid enwebu swyddog i gynorthwyo i greu'r sampl. Bydd angen i'r swyddog hwnnw fynd gyda'r swyddog cyswllt i unrhyw gyfarfod gyda'r adolygydd arweiniol yn ystod y gwaith paratoadol (gweler isod).

Gofynnir i chi sicrhau bod tua 80 o ffeiliau achos ar gael i'w harchwilio gan adolygwyr. Yr adolygydd arweiniol fydd yn gyfrifol am ddethol y ffeiliau achos i edrych arnynt, gan ddewis o sampl o enwau a ddarperir gan yr awdurdod lleol. Bydd angen cwblhau'r dethol ddim llai na phythefnos cyn y dechreuir darllen ffeiliau.

Bydd y nifer o ffeiliau'n amrywio i raddau yn dibynnu ar faint yr awdurdod. Fel arfer, detholir 8-10 achos o bob prif grŵp cleientiaid. Gellir adnabod tua 9 grŵp cleientiaid:

- pobl hŷn (yn cynnwys pobl hŷn â demensia).
- pobl dan 65 oed gydag anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau
- pobl gydag anabledd dysgu
- defnyddwyr gwasanaethau iechyd meddwl
- arall (er enghraifft, camddefnyddio sylweddau/ceiswyr lloches/HIV); *dylid cytuno ar hyn gyda'r adolygydd arweiniol a bydd yn dibynnu ar y niferoedd yn yr awdurdod, bodolaeth timau arbenigol ac ati*)

- pobl a gafodd eu hatgyfeirio o dan y weithdrefn Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed o fewn y ddwy flynedd ddiwethaf
- plant gydag anableddau
- plant sy'n derbyn gofal (yn cynnwys plant sy'n gadael gofal)
- achosion amddiffyn plant
- plant mewn angen (ar wahân i achosion amddiffyn plant, yn cynnwys Timau Troseddau Ieuenctid)

Bydd y broses samplu yn dilyn y camau canlynol:

Cam 1: Yn ystod y cyfarfod cyntaf gyda'r swyddog cyswllt ac yna yn y cyfarfod rhagarweiniol, bydd yr adolygydd arweiniol yn trafod natur mynegai cleientiaid yr awdurdod a dichonoldeb creu ffrâm sampl fel y nodir yng Ngham Dau (isod). Gellir addasu'r fethodoleg samplu i raddau, gyda chytundeb yr adolygydd arweiniol. Er dibenion archwilio, rhaid i'r adolygydd arweiniol gofnodi unrhyw benderfyniadau o'r math hwn.

Cam 2: Ar gyfer pob un o'r grwpiau cleientiaid canlynol, gofynnir i chi greu rhestr gywir yn nhrefn y wyddor o'r holl achosion a atgyfeiriwyd neu sy'n agored ar adeg y samplu, neu a gaewyd o fewn y chwe mis blaenorol.

Cam 3: Mae'r awdurdod wedyn yn cyfri'r nifer o achosion sydd ar y rhestr ac yn troi hynny'n  sampl ar hap o'r maint canlynol:

- 40 o bobl hŷn,
- 20 cleient ym mhob un o'r grwpiau oedolion eraill, sef anabledd dysgu, iechyd meddwl, anabledd corfforol neu nam ar y synhwyrau
- 20 o blant gydag anableddau
- 20 o blant sy'n derbyn gofal
- 20 o achosion amddiffyn plant
- 20 o blant mewn angen

- 20 arall' (*fel y cytunwyd gyda'r adolygydd arweiniol)*
- 15 o oedolion agored i niwed

Y ffordd y gwneir hyn yw ticio ar bob *nfed* enw ar y rhestr, yn dibynnu ar faint y grŵp cleientiaid. *(Noder y bydd hyn yn rhoi 180-215 o enwau, gan ganiatáu i'r adolygydd arweiniol ddewis un o bob dau neu dri).*

Cam 4: Dangosir y ffrâm sampl i'r timau gwasanaethau cymdeithasol i wirio bod y data'n gywir. Os yw'r data dan sylw'n annilys, gallwch ddewis dileu enw a rhoi un arall ar hap yn ei le, gan gofnodi'r rheswm am hynny a gadael i'r adolygydd arweiniol gael yr wybodaeth honno.

Cam 5: Caiff y ffrâm sampl ar gyfer pob grŵp o gleientiaid ei gyrru drwy e-bost at y tîm cydadolygu ddim llai na phedair wythnos cyn cychwyn darllen ffeiliau. Mae angen trefnu pob rhestr fel tabl yn cynnwys yr wybodaeth ganlynol:

Gofynion y sampl ffeiliau achos:

| Rhif Cyfeirnod | Dyddiad Geni | Rhyw | Ethnigrwydd | Anabledd | Dyddiad agorwyd | Dyddiad caewyd | Tîm gwaith cymdeithasol | Rheolwr achos | Gwasanaethau a dderbynnir neu a ddisgwylir | Statws Cyfreithiol |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | *Noder: ar gyfer pobl hŷn, mae'n bwysig datgan yma a yw'r person yn dioddef o ddemensia.* | | | | | *Er enghraifft, gofal preswyl, anabledd dysgu, iechyd meddwl, nyrsio ac ati.* | |

Cam 6: Bydd yr adolygydd arweiniol yn dewis y nifer gofynnol o achosion o bob rhestr, gan geisio cydbwysedd yn nhermau oed, rhyw, ethnigrwydd, anabledd ac ati. Yr adeg hon, gallai'r adolygydd arweiniol hefyd ofyn am ffeiliau ychwanegol ar gyfer rhai defnyddwyr. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, ffeil y gofalwr maeth y mae plentyn wedi ei leoli gyda nhw neu'r cofnodion achos o gartref gofal preswyl neu ganolfan ddydd defnyddiwr.

Cam 7: Anfonir y detholiad a cheisiadau ychwanegol yn ôl drwy e-bost at yr awdurdod ddim llai na phythefnos cyn dechrau darllen ffeiliau.

Dylid cadw cofnodion o bob cam yn y broses samplu, er dibenion archwilio.

**Y camau nesaf**

Unwaith y cytunir ar y sampl o achosion, dylid sicrhau bod y rheolwr achos yn cwblhau'r ffurflen dadansoddi achos (gweler 1.13.1) a'r siart llif perthnasol (gweler 1.12.2 - 6) cyn i ni ddarllen y ffeil. Gofynnir i chi gasglu'r ffeiliau y gofynnwyd amdanynt ynghyd i'r lleoliad y cytunwyd arno erbyn y diwrnod cyntaf o ddarllen ffeiliau. Mae o gymorth os bydd y ffeiliau wedi'u coladu yn ôl grŵp defnyddwyr gwasanaethau ac, o fewn pob grŵp, yn ôl rhif cyfeirnod. Rhaid sicrhau bod yna gyfleusterau storio diogel yn y man lle trefnwyd i'r tîm cydadolygu ddarllen ffeiliau. Os bydd ar dîm gwasanaethau cymdeithasol angen ffeil yn ystod y cyfnod dadansoddi ffeiliau achos, bydd yr adolygwyr yn sicrhau ei bod yn cael ei darllen a'i dychwelyd cyn gynted ag y bo modd. Ni fydd ffeiliau'n cael eu cymryd oddi ar y safle ac fe'u dychwelir i'r timau yn syth ar ôl y gwaith dadansoddi ffeiliau achos.

Wrth i ni ddarllen ffeiliau yn y sampl y cytunwyd arno, gallwn ofyn am gael:

- siarad ag aelodau allweddol o'r staff, gan geisio eglurhad neu i ymholi ynghylch pryderon posibl
- craffu ar ffeiliau eraill.

Defnyddir y sampl o ffeiliau i'w darllen i ddewis nifer llai o achosion i'w harchwilio'n fwy trwyadl drwy gyfrwng cyfweliadau gyda defnyddwyr unigol, gofalwyr, rheolwyr achos a darparwyr gwasanaethau. Esbonnir y rhan hon o'r fethodoleg ("Astudiaethau Achos") mewn mwy o fanylder yn yr adran berthnasol.

**Cwestiynau Allweddol**

- Ydy pobl yn cael eu sgrinio i mewn i'r system yn effeithiol, gan gymryd sylw priodol o ystyriaethau brys a chymhlethdod?
- Beth yw'r amseroedd ymateb?
- A asesir anghenion drwy gasglu'r wybodaeth allweddol oddi wrth bawb sy'n berchen ar yr wybodaeth honno, yn cynnwys defnyddwyr, gofalwyr ac asiantaethau eraill?
- A gydymffurfir â'r gofynion a'r cyfarwyddyd statudol perthnasol?
- A ddefnyddir yr wybodaeth hon i gynllunio'r ymateb yn nhermau gwasanaeth?
- A ydy'r mathau o wasanaethau a ddarperir a'u cost yn gymesur â'r lefelau o angen a ganfuwyd?
- Ydy'r prosesau a ddefnyddiwyd a'r canlyniadau a gafwyd yn unol â'r bwriadau a osodwyd gan yr awdurdod?
- Ydy'r cynlluniau'n cynyddu gallu'r defnyddwyr a chyfrifoldebau asiantaethau eraill?
- Ydy'r cynlluniau'n mynd i'r afael yn benodol ag anghenion gofalwyr, pryd bynnag y bo hynny'n briodol?
- Ydy'r cynlluniau'n mynd i'r afael yn benodol â gwrthdaro buddiannau posibl – defnyddiwr/gofalwr, dymuniadau/anghenion, cymhwysedd/dewis?
- Ydy'r cynlluniau'n parhau'n ymatebol a sut caiff hynny ei wirio?
- Faint o ddewis gaiff defnyddwyr a gofalwyr o fewn cyfyngiadau cyffredinol adnoddau a chyfrifoldebau statudol?
- Pa mor hawdd ydy hi i ddefnyddwyr a gofalwyr ddeall y system a pha brofiad a gaiff defnyddwyr ohoni?

- Ydy rheolwyr yn monitro'r ffordd mae eu staff yn gweithredu'r system a phrofiad defnyddwyr ohoni?